SFJGK505

# Gweithio mewn partneriaeth ag asiantaethau i fynd i'r afael â cham-drin domestig neu drais rhywiol

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â'ch gallu i ddatblygu a chynnal perthnasoedd gwaith gydag asiantaethau a rhanddeiliaid perthnasol. Bydd perthnasoedd gwaith rydych chi'n eu datblygu yn cefnogi ac yn gwella'r ddarpariaeth gwasanaethau gyda'r nod o gefnogi unigolion sydd wedi dioddef cam-drin domestig a thrais rhywiol yn y gymuned.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. nodi pobl eraill berthnasol yn eich sefydliad y gallwch weithio gyda nhw i fynd i'r afael â cham-drin domestig a thrais rhywiol
2. pennu a yw contract presennol eich sefydliad gydag asiantaethau perthnasol yn addas at y diben, ar sail:
   - nodau, amcanion a diben asiantaethau perthnasol
   - cymorth a darpariaethau i unigolion gan asiantaethau eraill
   - lefelau cydweithredu
   - ymgysylltiad, capasiti, gwybodaeth, profiad a sgiliau priodol pobl y mae eich sefydliad yn rhwydweithio â nhw
3. asesu effeithiolrwydd cysylltiad presennol eich sefydliad gydag asiantaethau yn unol â pholisïau a gweithdrefnau'r sefydliad
4. cytuno gyda chydweithwyr ar sut i wella perthnasoedd gwaith gydag asiantaethau a chymunedau, yn unol â pholisïau a gweithdrefnau eich sefydliad
5. cytuno ar fesurau perfformiad allweddol ar gyfer datblygu perthnasoedd gwaith effeithiol gydag asiantaethau a chymunedau, yn unol ag arweiniad sydd ar gael
6. gweithio gydag asiantaethau eraill i wireddu buddion dull cyffredin, wedi'i gydlynu, ar gyfer codi lefel y wybodaeth a'r ddealltwriaeth ynghylch cam-drin domestig a thrais rhywiol
7. nodi nodau ac amcanion asiantaethau eraill yn berthnasol i wella'r ymateb i gam-drin domestig a thrais rhywiol, gan gynnwys y cymorth sydd ar gael i unigolion sydd wedi'u heffeithio ganddynt
8. cydweithio ag asiantaethau eraill pan fo angen er mwyn paratoi cytundebau cofnodedig ynghylch rolau a chyfrifoldebau
9. gwneud atgyfeiriadau i asiantaethau eraill sy'n darparu cymorth a gwasanaethau i unigolion, yn unol â pholisïau a gweithdrefnau'r sefydliad
10. gweithio gydag asiantaethau i gynorthwyo â throsglwyddo unigolion rhwng gwahanol wasanaethau a chymorth, yn unol â pholisïau a gweithdrefnau'r sefydliad
11. rhannu gwybodaeth briodol gyda phobl eraill berthnasol, yn unol â pholisïau a gweithdrefnau'r sefydliad
12. hyrwyddo gwerth ymgysylltu ag asiantaethau eraill a'r gymuned ehangach i bobl eraill, yn unol â pholisïau a gweithdrefnau'r sefydliad, gan gynnwys i:
13. cynnal cyfrinachedd yn unol â pholisïau a gweithdrefnau rheoleiddiol a sefydliadol

14. diweddaru cofnodion a gwybodaeth yn unol â gweithdrefnau eich sefydliad

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. gofynion cyfreithiol, sefydliadol a pholisi sy'n berthnasol i'ch rôl chi, i rôl pobl eraill yn eich sefydliad ac i'r gweithgareddau sy'n cael eu cyflawni
2. y canllawiau, y polisïau a'r gweithdrefnau lleol a chenedlaethol perthnasol sydd ar gael a sut a phryd y dylid troi atynt
3. rôl, cylch gwaith, gwasanaethau ac amcanion eich sefydliad, gan gynnwys darparu gwybodaeth a chymorth i unigolion
4. sut mae nodau ac amcanion eich sefydliad yn perthyn i nodau ac amcanion sefydliadau a gwasanaethau eraill
5. cyfyngiadau eich awdurdod, eich cyfrifoldeb a'ch cymhwysedd proffesiynol
6. anghenion gwybodaeth a chymorth cyffredin unigolion sydd wedi profi trais rhywiol a sut i fodloni'r rhain
7. rôl ac effaith croestoriadedd yn gysylltiedig â thrais rhywiol
8. mentrau lleol a chenedlaethol perthnasol, a'u heffaith o ran datblygu gwasanaethau i fynd i'r afael â cham-drin domestig neu drais rhywiol
9. asiantaethau a chynrychiolwyr yn eich cymuned a all ddarparu gwybodaeth a chamau gweithredu gyda'r nod o fynd i'r afael â cham-drin domestig neu drais rhywiol, gan gynnwys
   - y cymorth sydd ar gael i unigolion
   - strwythur asiantaethau
   - pwy y dylid cysylltu â nhw wrth ystyried materion strategol a gweithredol perthnasol
   - y cymorth sydd ar gael i chi fel ymarferwr.
10. gweithdrefnau a phrosesau asiantaethau eraill, gan gynnwys
    - atgyfeiriadau
    - cael at gymorth a gwasanaethau
    - trosglwyddo rhwng gwasanaethau gwahanol
    - rhannu gwybodaeth briodol
11. sut i gynorthwyo â throsglwyddo unigolion rhwng gwasanaethau a chymorth gwahanol, gan gynnwys gwneud cyflwyniadau i asiantaethau eraill
12. nodau ac amcanion y prif asiantaethau o fewn eich cymuned yn berthnasol i wella sut caiff cam-drin domestig neu drais rhywiol eu trin
13. pwysigrwydd ystyried safbwyntiau a blaenoriaethau asiantaethau a chynrychiolwyr cymunedol eraill wrth ymdrin â cham-drin domestig neu drais

rhywiol a gweithio gydag unigolion

14. y rhesymau pam y gall fod gwrthdaro a chamddealltwriaeth rhwng gwahanol asiantaethau a sut i ddelio â'r rhain
15. pwysigrwydd nodi rhanddeiliaid allweddol mewn gwahanol asiantaethau
16. pa wybodaeth y mae'n briodol ei darparu i wahanol asiantaethau a chymunedau
17. pwysigrwydd herio camsyniadau nodweddiadol a safbwyntiau ystrydebol mewn asiantaethau a chymunedau ynghylch pa mor gyffredin yw cam-drin domestig neu drais rhywiol, eu hachosion, eu mathau a'u heffaith
18. y rhesymau cyffredin dros wrthdaro a chamsyniadau rhwng gwahanol asiantaethau, gan gynnwys blaenoriaethau amrywiol

## Geirfa